OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 2568 (Cy.226 )

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau.)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) 2007 ("y prif Reoliadau").

Mae'r prif Reoliadau'n darparu fod pobl sydd naill ai'n cael budd-daliadau gwladwriaeth penodol neu sydd ar incwm isel yn cael peidio â thalu ffioedd penodol, ac yn cael ad-daliad am ffioedd penodol, sef ffioedd a fyddai'n daladwy fel arall o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, ac yn cael taliad am dreuliau teithio sy'n cael eu hysgwyddo wrth sicrhau rhai o wasanaethau'r GIG ("treuliau teithio GIG").

Wrth gyfrifo adnoddau a gofynion person o dan y prif Reoliadau er mwyn canfod a oes gan berson hawl i beidio â thalu taliadau GIG a thalu treuliau teithio GIG, defnyddir fersiwn addasedig o Reoliadau Cymhorthdal Incwm (Cyffredinol) 1987.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r diffiniad o "teulu" ("*family*") yn Rheoliad 2 i'r prif Reoliadau ac yn diwygio rheoliad 5 (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael ad-daliad llawn) i ddarparu y bydd gan berson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm hawl i gael ad-daliad llawn o daliad GIG a thaliad llawn o dreuliau teithio GIG heb fod angen iddo hawlio taliad neu ad-daliad o'r fath.

Maent hefyd yn diwygio testun Cymraeg y prif Reoliadau i fewnosod yn nhestun Cymraeg rheoliad 2 (dehongli) y diffiniad o "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm" ac i gyfeirio at y lwfans

hwn yn nhestun Cymraeg is-baragraff (d) o reoliad 5(1) (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn).

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2008 Rhif 2568 (Cy.226)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Hydref 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *2 Hydref 2008* |
| *Yn dod i rym* | *27 Hydref 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 a deuant i rym ar 27 Hydref 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl (Cymru) 2007(**2**).

(**1**) 2006 p.42
(**2**) O.S. 2007/1104) (Cy.116) ("y Rheoliadau"); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1480 (Cy.153) a 2008/1879 a fewnosododd y diffiniad o "income-related employment and support allowance" yn nhestun Saesneg rheoliad 2 ac a ychwanegodd y geiriau "income-related employment and support allowance" i destun Saesneg rheoliad 5(1)(d) o'r Rheoliadau.

**Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau**

**2.**—(1) Diwygir rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli) fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "teulu" ("*family*"), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) yn rheoliad 5(1)(ch) mewn perthynas â pherson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi y mae iddo'r ystyr sydd iddo yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Lwfans Cyflogi a Chefnogi 2008(**1**),".

(3) Yn y testun Cymraeg, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad a ganlyn—

"ystyr "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm" ("*income-related employment and support* allowance") yw lwfans seiliedig ar incwm o dan Ran 1 o Ddeddf Diwygio Lles 2007 (lwfans cyflogi a chefnogi**)**(**2**)**;".**

**Diwygio rheoliad 5 o'r prif Reoliadau**

**3.**—(1) Diwygir rheoliad 5 (1) o'r prif Reoliadau (hawl i beidio â thalu ffi o gwbl ac i gael taliad llawn) fel a ganlyn.

(2) Ar ôl is-baragraff (b), mewnosoder—

"(bb) sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm;".

(3) Yn nhestun Cymraeg is-baragraff (d) ar ôl "lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm" mewnosoder "lwfans cyflogi a chefnogi sy'n gysylltiedig ag incwm".

*Edwina Hart*

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

01 Hydref 2008

(**1**) O.S. 2008/794.
(**2**) 2007 c.7.